

Cenhadaeth ein cenedl: cwricwlwm gweddnewidiol – cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru /01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **25 Mawrth 2019** i:

Tîm Deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm
Is-adran y Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: DeddfwriaethDiwygiorCwricwlwm@llyw.Cymru

Cenhadaeth ein cenedl: cwricwlwm gweddnewidiol – cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd

Gallwch ddarganfod sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych trwy ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd yn y ddogfen ymgynghori.

Fel rhan allweddol o'n diwygiadau addysg, nod ein cynigion yw ail-lunio ein hymagwedd at y cwricwlwm a rhoi Cymru ar y blaen gyda chwricwlwm modern a blaengar.

Nod y cynigion hyn yw gwella'n hymagwedd i edrych at y dyfodol a chanolbwyntio ar y disgyblion, ymagwedd fydd hon a gaiff ei harwain gan ymarferwyr.

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'n dull o ddeddfu ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
-----	---	---------	---	----------------	---

Rhowch eich rhesymau a/neu eich awgrymiadau ar gyfer gwella:

Cytunwn â'r bwriad i ganolbwyntio ar brif egwyddorion a strwythur y cwricwlwm yn y deddfwriaeth hon, ac i adael y manylder ar gyfer rheoliadau statudol a chanllawiau. Mae hynny'n taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhagnodi ar gyfer y tymor hir, a hyblygrwydd ar gyfer y tymor byrrach. Cytunwn mai'r Pedwar Diben, enwi'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, y tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ac elfennau o'r strwythur cynnydd a dilyniant yw'r pwyslais cywir ar gyfer y deddfwriaeth.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y dylem roi dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir i ddarparu cwricwlwm i helpu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gyrraedd y Deilliannau Cyrhaeddiad a osodir gan yr ysgol, neu ragori arnynt, ac i helpu plant i symud ar hyd y continwmm a'r Camau Cynnydd yn unol â'u datblygiad addysgol?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
-----	---	---------	---	----------------	---

Rhowch eich rhesymau a/neu eich awgrymiadau ar gyfer gwella:

Cytunwn mewn egwyddor – dyma ddylai pwrpas cwricwlwm fod.

Fodd bynnag, ble mae'r cysyniad o'r 4 Diben, y 6 Maes Dysgu a Phrofiad, a'r 3 chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn rhai cymharol gadarn a chlir, nid yw'r cysyniadau o ran y **strwythurau dilyniant** (y Deilliannau Cyflawniad, y Camau Cynnydd - a'r berthynas rhwng y ddau - a sut bydd y continwmm dysgu yn gweithio'n ymarferol) yn rhwydd eu deall na'u rhagweld. Mae'r syniad y bydd gan ysgolion ddisgresiwn i bennu eu Deilliannau Cyflawniad eu hunain yn gam sylweddol ac anghyfarwydd iawn.

Gwelwn fanteision dileu'r Cyfnodau Allweddol o blaid creu continwmm mwy hyblyg a chyfannol a dileu ffiniau artiffisial sy'n gallu creu rhwystrau i ddilyniant. Fodd bynnag, byddem am gael sicrhad na fydd rhinweddau'r **Cyfnod Sylfaen** yn benodol yn cael eu colli:

- er bod y cyfraddau staffio dan bwysau difrifol ar hyn o bryd yn sgil pwysau cyllidebol, ni fyddem am weld eu colli o'r canllawiau
- yn yr un modd, byddem am sicrhau bod y pwyslais ar 'ethos' unigryw'r Cyfnod Sylfaen yn parhau, drwy'r beidio â gor-ffurfioli addysg blynyddoedd cynnar, a manteisio ar y gallu i ddarganfod a dysgu mewn dulliau ymarferol, hyblyg
- bydd angen ystyried beth fydd y trefniadau fwyaf priodol ar gyfer sefydlu gwaelodlin ar gyfer pob plentyn; ai yn 5 oed y cynigir i hyn gael ei wneud, neu ar y pwynt pan fydd plentyn yn cychwyn yn yr ysgol?
- mi fydd yn gwbl hanfodol bod yr hawl i ddefnyddio dulliau trochi ar gyfer y Gymraeg yn yr hyn a elwir ar hyn o bryd yn 'Cyfnod Sylfaen' yn parhau, gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n hwyrach.

Bydd angen gofalu bod dulliau newydd priodol o sicrhau'r gofynion hyn yng nghyd-destun continwwm yn hytrach na Chyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol.

Cwestiwn 3 – Pa gamau ddylai'r pennaeth a'r corff llywodraethu eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd hon?

Gweler yr ateb i gwestiwn 4 isod.

Yn ogystal, pryderwn nad yw cyrff llywodraethu ysgolion yn rhan o'r prosesau rhannu gwybodaeth a chydweithio ehangach ac nad oes ganddynt y ddealltwriaeth angenrheidiol ar hyn o bryd i ysgwyddo'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r diwygiadau. Bydd angen rhaglen benodol sy'n targedu cyrff llywodraethu i sicrhau eu bod nhw'n barod i chwarae'u rôl mewn modd deallus ac adeiladol, a'u bod yn llawn ymwybodol o oblygiadau'r newidiadau ar bob lefel.

Cwestiwn 4 – Pa gymorth fyddai ei angen i alluogi ysgolion i gymryd y camau hynny?

Prif gonsyrn UCAC ar hyn o bryd yw sut a phryd y darperir yr amser i'r gweithlu addysg:

- ymgyfarwyddo'n fanwl â'r trefniadau newydd a chael cyfle i gyd-drafod a dod i ddealltwriaeth ar y cyd
- derbyn datblygiad proffesiynol digonol i – yn y bôn – eu hail-hyfforddi yn y dulliau cwbl newydd o addysgu fydd yn angenrheidiol
- cynllunio ar y cyd ac yn unigol ar gyfer y newidiadau – yn strwythurol, ac o ran cynllunio darpariaeth (yn unigol ac ar y cyd â chyd-weithwyr perthnasol)

Croesawn y cynnig sydd dan ymgyngoriad ar hyn o bryd i sefydlu diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn am dair blynedd. Mi fyddai hynny'n help, ond ni fydd yn dod yn agos at fod yn ddigonol ar gyfer ymdopi â newid o'r fath. Bydd angen amser ac adnoddau sylweddol os am gyflawni'r dasg mewn modd proffesiynol, cyfrifol, effeithiol a theg i'r gweithlu addysg.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylai addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith, sy'n briodol o ran oedran, gael ei rhoi i blant 3–16 oed, yn unol â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno â gwneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACR), sy'n addas o ran oedran a datblygiad, yn orfodol i blant 3–16 oed?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r pŵer gwneud canllawiau er mwyn iddo gael ei ddylunio i sicrhau bod ACR yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran a datblygiad i'r plant sy'n ei derbyn?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud ACR yn ddewisol i ddysgwyr chweched dosbarth?

Cytuno	☐	Ddim yn cytuno	☐	Ddim yn gwybod	☒
---------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol (AG)?

Cytuno	☒	Ddim yn cytuno	☐	Ddim yn gwybod	☐
---------------	-------------------------------------	-----------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud AG yn ddewisol i ddysgwyr yn y chweched dosbarth?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

--

Cwestiwn 11 – A ddylid cadw'r hawl i dynnu allan o AG ac ACR?

Dylid	☐	Ni ddylid	☐	Ddim yn gwybod	☐
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

--

Cwestiwn 12 – Os yw'r hawl i dynnu allan yn cael ei gadw, a ddylai barhau'n hawl i'r rhiant yn unig (mae rhiant yn cynnwys y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu'r rhai sy'n gofalu am y plentyn)?

Dylai	☐	Ni ddylai	☐	Ddim yn gwybod	☐
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Os 'dylai', rhowch eich rhesymau/Os 'ni ddylai', rhowch eich rhesymau ac awgrymwch drefniadau eraill:

--

Cwestiwn 13 – Os caiff yr hawl i dynnu allan ei dileu, pa ddewis arall, os o gwbl, ddylai fod yn ei le?

Pa drefniadau amgen, os o gwbl, fydddech chi'n eu rhoi ar waith:

--

Cwestiwn 14 – Beth yw eich barn ar y dull gweithredu a gynigir ar gyfer sicrhau bod dysgu ac addysgu Cymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm i Gymru?

Rydym yn cytuno â, ac yn cefnogi'r cynigion i:

- **wneud y Gymraeg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer plant 3-16 oed**

Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, ac yn ddarpariaeth hanfodol os am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dod o'n system addysg, ac os am sicrhau bod dulliau dysgu'r Gymraeg yn fwy effeithiol a llwyddiannus.

- **gael gwared ar y rhaglenni astudio Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a rhoi un continwwm dysgu yn eu lle fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:**

Mae'r rhaglenni astudio ar wahân wedi bod yn broblematig o ran gosod disgwyliadau isel, o ran creu rhwystrau i ddilyniant, ac yn fympwyol o ran pwy sy'n

dilyn pa raglen. Mae gan gontinwrm y potensial i greu system sy'n datblygu sgiliau dysgwyr i'r eithaf – fel ym mhob pwnc arall yn y cwricwlwm.

Deallwn y bydd angen rhagor o waith o ran sut i asesu a mesur cynnydd. Er bod perthynas agos rhwng natur ieithyddol ysgolion a deilliannau o ran y Gymraeg, gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn amlwg iawn yn creu'r siaradwyr mwyaf rhugl a hyderus, bydd angen gofal os mai'r bwriad yw seilio disgwyliadau/camau cynnydd/deilliannau ar natur ieithyddol ysgolion (paragraffau 3.95 a 3.100). Rhaid cofio bod plant sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, neu sy'n dod o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn iaith gyfathrebu, yn gallu mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg, neu mewn ffrwd Saesneg mewn ysgolion dwyieithog. Rhaid sicrhau mai gallu a photensial y dysgwyr, yw'r sail ar gyfer pennu disgwyliadau/deilliannau, ac nid natur ieithyddol yr ysgol yn unig. Ni fyddem am weld sefyllfa, fel sy'n wir ar hyn o bryd, ble mae'r system yn caniatáu i ddysgwyr dangyflawni oherwydd 'natur ieithyddol' eu hysgol; rhaid adnabod ble mae pob dysgwr unigol ar y continwrm a pha mor bell mae modd iddynt fynd ar hyd y continwrm, waeth beth yw natur ieithyddol eu hysgol; rhaid bod cyfrifoldeb ar bob ysgol i sicrhau'r ddarpariaeth fydd yn caniatáu hynny.

- **roi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r diffiniadau ar gyfer categorïau iaith ysgolion drwy is-ddeddfwriaeth**

Mae'r diffiniadau presennol yn or-gymhleth, yn ddryslyd, ac yn gamarweiniol iawn. Cefnogwn y cynnig i ail-edrych ar y diffiniadau (gan ymgynghori llawn â rhanddeiliaid) a chreu strwythur sy'n glir o ran y deilliannau disgwylidig i ddysgwyr o ran eu sgiliau iaith Gymraeg, ac i ddefnyddio hyn fel sail ar gyfer sicrhau gwelliant a chynnydd dros amser.

Gwrthwynebwn yn chwyrn unrhyw gynnig i:

- **wneud y Saesneg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd yn y ddeddfwriaeth a fyddai'n rhoi dyletswydd i bob ysgol a lleoliad meithrin a gyllidir i addysgu Saesneg**

Nodwn ddatganiad Llywodraeth Cymru ar barhad trochi plant yn y Gymraeg, ac rydym wedi'i groesawu.

Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn nodi'n ddiamwys na fyddem yn gallu cefnogi gwneud y Saesneg yn elfen orfodol gydag eithriad o ryw fath ar gyfer trochi yn y Gymraeg, er enghraifft, yn y blynyddoedd cynnar.

Mae UCAC yn gadarn o'r farn nad oes angen deddfu i wneud y Saesneg yn benodol yn orfodol (ac nodwn nad *Dyfodol Llwyddiannus* yn argymhell hynny); byddai gwneud hynny'n agor y drws i lu o ganlyniadau anfwriadol trafferthus a niweidiol dros amser. Oes, mae yna ymrwymiad 'cyfreithiol,...polisi [ac]...addysgol i ddwyieithrwydd', ond caiff hynny ei gyflawni drwy wneud y Gymraeg yn orfodol; nid oes angen gorfodaeth gyfatebol ar gyfer y Saesneg.

Mi fydd y Saesneg yn dod dan bennawd un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a fydd yn orfodol, sef leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae UCAC o'r farn bod hynny'n ddigonol o ran sicrhau statws i'r pwnc, i'r iaith ac i'r sgiliau cyfatebol.

Cwestiwn 15 – Beth yw eich barn am y cynigion deddfwriaethol er mwyn galluogi'r trefniadau asesu newydd?

Croesawn y gydnabyddiaeth o ffaeledau'r systemau presennol (ac yn arbennig y defnydd o asesiadau o waith dysgwyr ar gyfer pwrpasau atebolrwydd allanol) sydd wedi bod yn wirioneddol ddinistriol mewn llawer o ffyrdd, i ddysgwyr ac i staff ysgolion, a hynny dros nifer o flynyddoedd erbyn hyn. Mae'r pwyslais ar asesu ar gyfer dysgu, ac ar gadw trefniadau atebolrwydd ar wahân gymaint â phosib, yn ddoeth.

Fel y dywedwyd uchod dan gwestiwn 2, teimlwn fod y cynigion mewn perthynas ag asesu yn parhau'n annelwig o ran sut y byddant yn gweithio'n ymarferol. Nid yw'r cysyniadau o ran y strwythurau dilyniant (y Deilliannau Cyflawniad, y Camau Cynnydd - a'r cydberthynas rhwng y ddau) yn rhwydd eu deall na'u rhagweld.

Mae'r syniad y bydd gan ysgolion ddisgresiwn i bennu eu Deilliannau Cyflawniad eu hunain yn gam sylweddol ac anghyfarwydd iawn, ac er y gwelwn y gallai hynny fod yn fwy cydnaws ag ymagwedd y cwricwlwm newydd, ni theimlwn fod modd inni gymeradwyo'r model newydd heb fod gennym ddealltwriaeth ddyfnach o hyd a lled y cynnig.

Mae nifer o gwestiynau'n codi:

- a fydd y Deilliannau Cyflawniad yn cael eu rhestru yn y canllawiau statudol (3.126) a bod ysgolion yn dewis a dethol o'u plith? neu ai ysgolion sy'n eu drafftio?
- ar ba lefel y mae'r Deilliannau Cyflawniad yn cael eu 'gosod'? cyfeirir yn y ddogfen ymgynghori at gyfrifoldeb Pennaeth, sy'n awgrymu bod y Deilliannau'n cael eu gosod mewn modd cyffredinol ar gyfer holl ddysgwyr yn yr ysgol
- sut bydd y cyfrifoldeb i bennu Deilliannau Cyflawniad ar gyfer pob un o'r Camau Cynnydd, yn ogystal ag i ddatblygu asesiadau ar sail y Deilliannau Cyflawniad yn effeithio ar lwyth gwaith staff ysgol (penaethiaid ac athrawon)
- sut bydd modd sicrhau nad yw'r system newydd yn cael ei gam-ddefnyddio fel system 'gweddu orau' tebyg iawn i'r lefelau presennol?; mae 3.126 yn cyfeirio at 'farnu pa ddisgrifiad sy'n gweddu orau i berfformiad dysgwr'

Nid yw'r cynigion mewn perthynas ag 'asesu effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu' (3.123 (iii) a (iv)) yn glir o gwbl, o ran beth yn union yw eu pwrpas, a sut yn union byddai hyn yn cael ei weithredu. Ai pwerau 'arolygu' o ryw fath yw'r rhain? Heb ragor o fanylder, rydym yn bryderus ac yn ansicr iawn ynghylch y cynigion hyn.

Yn y Gymraeg, bydd angen penderfynu ai 'Deilliannau Cyflawni' neu 'Deilliannau Cyflawniad' yw'r term a ddefnyddir. Mae'r ddogfen ymgynghori'n defnyddio'r ddau - ac yn defnyddio 'Deilliannau Cyrhaeddiad' hefyd - oll i gyfeirio at *Achievement Outcomes*. Bydd rhaid sicrhau cysondeb yn hyn o beth.

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu a amlinellir ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
-----	--------------------------	---------	--------------------------	----------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

Cytunwn â barn yr OECD, a barn Llywodraeth Cymru ar sail hynny, bod angen system werthuso sy'n blaenoriaethu gwelliant ac yn cydlynw â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd – a hynny ar sail ystod ehangach o wybodaeth, a heb fod ar sail asesiadau dysgwyr. Cytunwn â'r pwyslais ar hunanwerthuso ystyrlon ac onest, ar sail pedwar diben y cwricwlwm, fel sail ar gyfer cynllunio a gweithredu gwelliant. Bydd prosesau dilysu ac

adolygu'n bwysig, ac mi fydd llwyddiant y system newydd yn ddibynnol iawn ar gyd-ddealltwriaeth rhwng yr holl bartneriaid o'r 'diwylliant' newydd, a bod y negeseuon yn gwbl gyson rhwng gwahanol haenau'r system. Bydd awyrgylch o ymddiriedaeth yn gwbl hanfodol, neu ni fydd hunanwerthuso onest yn gallu digwydd. Yn achos ysgolion, bydd rôl y consortia rhanbarthol yn greiddiol (3.145), felly bydd cyfrifoldeb mawr arnyn nhw i sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol ac yn adeiladol. Awgrymwn y dylid cyhoeddi arweinlyfr hunanwerthuso cenedlaethol ar gyfer eu rôl hwythau, yn ogystal â'r arweinlyfr cenedlaethol ar gyfer meithrinfeydd ac ysgolion (3.147). Efallai bod yna le i Estyn gadw llygad ar y gweithdrefnau dilysu at adolygu ar lefel y consortia rhanbarthol i sicrhau eu priodolrwydd.

Cytunwn mai cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant yw'r deilliant fwyaf priodol o'r broses hunanwerthuso, a bod crynodeb ohono i'w gyhoeddi.

Rydym yn cydweld â'r cynnig bod rôl Estyn yn parhau o ran sicrhau ansawdd ysgolion unigol, ond â phwyslais cynyddol dros amser ar hunanwerthuso, a bod y rôl yn esblygu dros amser ar sail cynigion adroddiad Arolygiaeth Ddysgu.

Os oes modd gweithredu'r trefniadau newydd ar sail deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae hynny'n fanteisiol. Nid oes diben deddfu er mwyn deddfu.

Cwestiwn 17 – Beth yw eich barn ar y dull gweithredu arfaethedig o ran cyhoeddi data asesu dysgwyr ac a ydych yn rhagweld peryglon?

Rydym yn cydweld â'r cynnig bod hon yn drefn ar gyfer asesu sut mae'r system addysg gyfan yn perfformio, ac yn sail ar gyfer llunio blaenoriaethau polisi cenedlaethol.

Rydym wedi croesawu'r newid i beidio â chyhoeddi asesiadau athrawon a chanlyniadau profion darllen a rhifedd yn is na'r lefel genedlaethol. Dros amser, mi fydd hynny'n help i newid y diwylliant.

Fodd bynnag, roedd un sgil-ffaith negyddol y bu i UCAC dynnu sylw ato ar y pryd, ac sy'n dal i beri pryder:

“Pryderwn am un sgil effaith penodol o beidio â chyhoeddi'r data sy'n cael eu henwi yn y ddogfen ymgynghori, sef gallu'r cyhoedd a mudiadau perthnasol i ddadansoddi ble mae'r Llywodraeth arni o ran ei thargedau mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Tybiwn y bydd gan Lywodraeth Cymru ei hun, y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol fynediad at y data, neu o leiaf y data sy'n uniongyrchol berthnasol iddyn nhw. Fodd bynnag, mae atebolrwydd cyhoeddus yn y maes hwn yn greiddiol; mae hanes yn dangos mai pwysau gan rieni a grwpiau/mudiadau/sefydliadau perthnasol sydd wedi arwain at dwf yn y sector cyfrwng Cymraeg. Rhaid peidio bygwth y tryloywder hwn. Ni fyddai ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn llwybr amgen derbyniol - nac ychwaith, tybiwn, yn llwybr hwylus i'r Llywodraeth.

Awgrymwn y gallai fod yn werth cyhoeddi Bwletin Ystadegol newydd sy'n cwmpasu'r wybodaeth fyddai ei angen ar gyfer monitro cynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg.

...

Mae'n bosib iawn y bydd Llywodraeth Cymru ei hun yn gallu parhau i asesu effeithiolrwydd ei pholisïau, ond ni fydd yr un mor hwylus i randdeiliaid allanol wneud hynny os na chyhoeddir y data. Fel y dywedwyd uchod, ein prif bryder fan hyn yw diogelu gallu mudiadau i fonitro cynnydd mewn perthynas ag addysg

cyfrwng Cymraeg, a thargedau neu gerrig milltir yn y dogfennau 'Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21' a 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Rhaglen waith 2017-21'. Nid yw data cenedlaethol yn ddigon er mwyn cael dealltwriaeth o'r sefyllfa; mae data ar lefel awdurdod lleol, ac yn is na hynny yn angenrheidiol. Mae cwestiwn yn codi ynghylch Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a pha ddata y dylent fod yn ei ddefnyddio ac yn ei adrodd, ac ar ba ffurf. Efallai y byddai ein hawgrym o gyhoeddi Bwletin Ystadegol sy'n cwmpasu'r wybodaeth ar gyfer monitro cynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg yn gymorth yn hyn o beth."

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau a nodwch a oes unrhyw beth arall y credwch y dylem ei ystyried:

--

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr asesiadau effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymau:

--

Cwestiwn 20 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Gobeithiwn y bydd y 'camgymeriad' ynghylch y cynnig i wneud y Saesneg yn orfodol, yn tynnu sylw at y ffaith bod gweithio tuag at gydraddoldeb rhwng y ddwy iaith yn golygu eu trin mewn ffyrdd gwahanol, ac nid yn yr un ffordd â'i gilydd.

Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Nghymru, heb sôn am y byd ehangach; mae'r berthynas grym rhwng y ddwy iaith yn gwbl anghydradd (ac mi fydd hynny wastad yn wir), felly mae angen rhoi blaenoriaeth a chefnogaeth ychwanegol i'r Gymraeg i geisio lleihau'r anghydraddoldeb.

Cwestiwn 21 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

- cynyddu'n sylweddol ac yn gyflym y dulliau a chyfleoedd ar gyfer Cymreigio'r gweithluoedd perthnasol
- gosod dyletswyddau statudol ar wahanol lefelau (gan gynnwys awdurdodau lleol) i gynllunio'r gweithlu addysg mewn perthynas â'r Gymraeg yn benodol (mae model yn y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018)), ac i weithredu'n fwriadus ar sail y cynlluniau
- gosod targedau statudol ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg, a rhoi hawl i addysg cyfrwng Cymraeg
- deddfu i wneud rhuglder yn y Gymraeg yn ddisgwyliad arferol ('norm') o fewn y system addysg
- gweithio tuag at Gymreigio'r blynyddoedd cynnar/Cyfnod Sylfaen dros gyfnod

Cwestiwn 22 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: